| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **4 Medi 2013** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Pennaeth Cyllid ac Asedau** |
| **Awdur yr Adroddiad :** | **Prif Gyfrifydd** |
| **Teitl:** | **Cyllideb 2014/15 - Diweddariad** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ynglŷn â'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y broses o osod cyllideb y cyngor ar gyfer 2014/15. Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar roi ystyriaeth i adroddiad sydd i'w gyflwyno i'r Cyngor Sir ar 10 Medi 2013 (Atodiad 1)

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol swyddogaeth i gadw trosolwg o'r broses gyllidebu.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf a'r camau arfaethedig nesaf ac yn rhoi ystyriaeth i'r cynigion ar gyfer arbedion sy'n mynd ger bron y Cyngor Sir i'w cymeradwyo'n ffurfiol.

## 4. Manylion am yr adroddiad

Ym mis Mehefin 2013, cyflwynwyd adroddiad yn amlinellu'r rhagdybiaethau diweddaraf mewn perthynas â setliad posibl cyllideb refeniw'r cyngor a goblygiadau ariannol posibl hynny. Hyd nes y cyhoeddir fersiwn ddrafft y Setliad Llywodraeth Leol fis Hydref, ni fydd y sefyllfa'n eglur er bod pob arwydd y bydd y setliad yn un gwael. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn argymell fod cynghorau'n tybio y bydd gostyngiad o -4% yn 2014/15. Bydd y cyngor hefyd yn dioddef effaith niweidiol newidiadau sy'n digwydd o ganlyniad i ddata'r cyfrifiad sydd wedi amlygu fod poblogaeth y cyngor yn llai nag oedd wedi ei amcangyfrif mewn amcangyfrifon poblogaeth cenedlaethol.

Mewn ymateb i'r setliad gwael tebygol, mae pob gwasanaeth yn gwneud cynnydd wrth ddynodi cynigion ar gyfer arbedion gogyfer â'r tair blynedd nesaf. Hyd yma, mae cynigion newydd gogyfer ag arbedion sy'n dod i oddeutu £2.5m wedi cael eu dynodi ac mae tri gwasanaeth yn weddill i'w hadolygu. Caiff y cynigion hyn eu hystyried mewn rhagor o fanylder gydag aelodau arweiniol fis Medi cyn eu cyflwyno i aelodau etholedig mewn gweithdy fis Hydref.

Mae’r broses o herio gwasanaethau yn ystod 2012/13 a 2013/14 eisoes wedi dynodi arbedion posibl o oddeutu £1.7m gogyfer â 2014/15. Mae’r cynigion hynny wedi cael eu hystyried mewn manylder yn ystod yr amrywiol gyfarfodydd herio gwasanaethau a gynhaliwyd fel rhan o’r broses setlo cyllideb ar gyfer 2012/13 a 2013/14. Y bwriad felly yw mynd â’r arbedion sydd eisoes wedi eu dynodi ger bron y Cyngor Sir i’w cymeradwy’n ffurfiol yn gynnar fis Medi fel y gellir canolbwyntio ar arbedion newydd sydd wedi eu dynodi a chynigion er mwyn ymdopi ag unrhyw ddiffygion yng nghyllideb y flwyddyn nesaf.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae’r gyllideb wrth wraidd cyflawniad pob un o flaenoriaethau a gwasanaethau'r cyngor.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae’r adroddiad i’r cyngor wedi dynodi arbediad o £1.7m gyda £782k ohono wedi ei gynnig gan wasanaethau a £963k ohono yn arbedion corfforaethol. O’r arbedion corfforaethol hyn, bydd £663k yn cael eu cyflawni gan wasanaethau.

## 7. Pa ymgynghori sydd wedi digwydd?

Mae’r cynigion ar gyfer arbedion yn 2014/15 eisoes wedi cael eu hystyried mewn cyfarfodydd herio gwasanaethau yn 2011 ac yn 2012 a chawsant eu cynnwys yn rhan o’r targedau tair blynedd a ddynodwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Bydd cytundeb ffurfiol o’r arbedion sydd eisoes wedi eu dynodi yn caniatáu i ymdrechion gwleidyddol a chorfforaethol ganolbwyntio at y dasg heriol o osod gweddill y gyllideb gogyfer â 2014/15.

## 9. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

Rhaid i effaith y cynigion ar wasanaethau a’r effaith ariannol gael eu hystyried yn rhan o'r broses o osod y gyllideb.